**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Papur Consortia Cymraeg i Oedolion Cymru ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Adolygiad Polisi o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg**

Y mae gan faes dysgu Cymraeg i oedolion y potensial i drawsnewid y sefyllfa ieithyddol yng Nghymru. Un garfan bwysig o bobl yr ymwneir â nhw yw'r garfan honno o'r boblogaeth sy'n dylanwadu ar arferion ieithyddol y genhedlaeth iau, sef rhieni plant sy'n derbyn addysg ddwyieithog yn ysgolion Cymru ar hyn o bryd. Gall oedolion ddod yn siaradwyr rhugl o fewn cyfnod o ddwy i chwe blynedd. Er mwyn gwireddu'r potensial hwn y mae angen gweithredu a gobeithir y bydd yr adolygiad polisi o'r iaith Gymraeg mewn addysg yn gyfrwng i greu newidiadau. Rhaid gosod Cymraeg i Oedolion ynghanol unrhyw strategaeth i wrthdroi'r shifft ieithyddol yng Nghymru.

Honna rhai sydd eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru bod tua 90% o'r rhai sydd yn dechrau dysgu Cymraeg yn methu â chwblhau eu hastudiaethau. Petai hyn yn wir, ac ni wyddys o ble y daw'r ffigur, byddai'n dal i olygu bod maes Cymraeg i Oedolion yn cynhyrchu dros 2,000 o siaradwyr Cymraeg yn flynyddol. Y gwir yw mai yw'r ffigur swyddogol a ddarparwyd gan ELWa ar gyfer myfyrwyr sydd yn cwblhau cyrsiau yw 82.4%. Cymharer hyn â'r ffigur 69.6%, sef canran y myfywyr sydd yn cwblhau cyrsiau Sbaeneg.

**Cefndir - Y Sefyllfa Bresennol**

**Consortia Cymraeg i Oedolion**

Yn hanesyddol y mae clytwaith o ddarparwyr cyrsiau Cymraeg i Oedolion wedi datblygu dros y blynyddoedd: colegau addysg uwch, colegau addysg bellach, awdurdodau addysg lleol a Chymdeithas Addysg y Gweithwyr. Cydweithia'r rhain o fewn wyth Consortiwm Cymraeg i Oedolion (wedi'u seilio ar ffiniau'r hen siroedd) i greu rhaglen integredig ar gyfer yr ardal. Y mae bodolaeth y Consortia yn sicrhau deialog gyson rhwng y gwahanol ddarparwyr ac yn fodd o raeadru gwybodaeth gyflawn i drefnyddion, sefydliadau, tiwtoriaid a dysgwyr. Y mae cydweithio er budd yr iaith Gymreag felly yn nodwedd bwysig o'r maes hwn. Fel y dywed adroddiad ESTYN yn eu dogfen *Astudiaeth Sector - Cymraeg I Oedolion*, "O ganlyniad i gyd-gynllunio effeithiol rhwng darparwyr, llwyddwyd i gymryd camau breision tuag at sefydlu rhwydwaith cydgysylltiedig o gyrsiau Cymraeg. O'r herwydd, mae gan ddysgwyr bellach well dewis o gyrsiau o wahanol ddwysedd, heb orfod teithio pellter arfesymol i fynychu dosbarth addas".

Yn ddiweddar, ffurfiwyd rhwydwaith o Gonsortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant sydd

â chyfrifoldeb am gydlynu addysg bellach yn gyffredinol o fewn eu hardaloedd. Yn anffodus, nid oes peirianwaith ffurfiol ar gyfer cydgysylltu gwaith y Consortia Cymraeg i Oedolion â'r Consortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant.

**Cyllid**

Ariennir y ddarpariaeth gan y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant - ELWa, sy'n talu £3.1 miliwn i sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru. Daw'r cyllid trwy'r Dull Cyllido Rheolaidd sy'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. 1.25 yw'r Pwysedd Maes Rhaglen a rhaid gwario .05 o'r swm hwnnw ar weithgareddau'r Consortiwm.

**Cydlynu Cenedlaethol**

Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd yn gyfrifol am y gorolwg strategol dros faes Cymraeg i Oedolion. I'r perwyl hwn, cyflogir un swyddog llawn amser i ymgymryd â'r gwaith. Y mae'r swyddog hwn yn cydweithio'n agos ag ELWa i ddatblygu a monitro cynlluniau strategol yr wyth Consortiwm, a datblyga agweddau ar waith Cymraeg yn y Gweithle, marchnata a nawdd, ymchwil, hyfforddiant a chreu adnoddau.

Ar ben hyn, cyflogir Swyddog Arholiadau Cymraeg i Oedolion o fewn Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Swydd newydd ers Medi 2001 yw hon ac y mae'r swyddog wrthi'n datblygu arholiadau ar bum lefel o fewn Fframwaith Cymwysterau Ewrop, ac o dan ymbarel ALTE (Association of Language Testers in Europe).

**Ansawdd y Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr**

Mewn arolygon diweddar gan ESTYN, y mae gwaith maes Cymraeg i Oedolion wedi derbyn canmoliaeth hael. Derbyniodd nifer o sefydliadau radd 1 am eu gwaith. Ymhlith y rhain y mae:

Prifysgol Caerdydd Gradd 1 yn y chwe elfen yr aseswyd hwy arnynt

Coleg Pontypridd Gradd 1 yn y ddwy elfen yr aseswyd hwy arnynt

Coleg Gwent Gradd 1 yn y ddwy elfen yr aseswyd hwy arnynt

Prifysgol Abertawe 2 radd 1

Coleg y Drindod 2 radd 1

Y mae'r canlyniadau hyn yn dystiolaeth o'r gwaith caled a safonol a wneir ledled Cymru. Sicrheir hyn trwy drefniadaeth effeithiol a thiwtoriaid ymroddgar.

Nid yw'r ffigurau ar gyfer myfyrwyr sydd yn sefyll arholiadau Cymraeg i Oedolion yn uchel. Yn 2001 safodd 362 o ymgeiswyr Defnyddio'r Gymraeg (tua safon TGAU), tra safodd 110 o fyfyrwyr arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch (safon uwch). Fodd bynnag, tra'n cydnabod pwysigrwydd y gyfundrefn arholi ar gyfer gosod nod realistig ar gyfer ein myfyrwyr, nid yw'r rhan fwyaf ohonynt am sefyll arholiadau ffurfiol. Mynychant ddosbarthiadau er mwyn dod yn siaradwyr. Ar gyfer dysgwyr nad ydynt eisiau tystiolaeth o'u cyrhaeddiad, ond eisiau rhyw gofnod o'r hyn y maent wedi'i gyflawni, y mae cyfundrefn RhCA (Rhwydwaith y Coleg Agored) ar gael. Gyda'r credydau hyn, gwobrwyir myfyrwyr am eu cyflawniad. Y ffigur diweddaraf gan y Cyrff Dyfarnu yw i o 20,542 o gredydau gael eu dyfarnu i fyfyrwyr Cymraeg i Oedolion yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

## Twf

Gwelwyd twf cyson yn y nifer sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, tan 2000-2001. Cymharer 15,894 o ymrestriadau yn 1994/5 â 23,634 o ymrestriadau yn 1990-2000. Cwympodd y nifer i 21,011 y llynedd ond diau bod argyfwng clwy'r traed a'r genau a'r streic betrol yn rhannol resymol o leiaf am y cwymp hwn. Y mae'n rhy gynnar i ddweud beth yw'r sefyllfa eleni.

Un maes sydd wedi cyfrannu at y cynnydd hwn yw cyrsiau Cymraeg yn y gweithle. Y mae galw cynyddol o du cyflogwyr ar gyfer darparu cyrsiau mewn gweithleoedd. Amrywia'r rhain o gyrsiau cwrteisi byr er mwyn meithrin sgiliau penodol i gyrsiau magu hyder ar lafar o fewn cyd-destun galwedigaethol a chyrsiau gloywi Cymraeg ysgrifenedig.

## Creu cyfundrefn effeithiol - yr angen am broffesiynoli

### Tiwtoriaid

Y mae maes Cymraeg i Oedolion yn dibynnu'n drwm iawn ar diwtoriaid rhan amser. Yn ôl ffigurau diweddaraf Bwrdd yr Iaith, cyflogir llai na 60 o diwtoriaid llawn amser o gymharu â 700 o diwtoriaid rhan amser. O dan y drefn bresennol, er cymaint o foddhad y caiff tiwtoriaid rhan amser o'u gwaith yn dysgu oedolion, nid yw'n bosibl creu gyrfa iddynt eu hunain o fewn y maes, ac o ganlyniad yr ydym yn colli llawer o diwtoriaid i feysydd eraill. Y mae'r tiwtoriaid hyn yn ymrwymedig ac yn weithgar ond ni ellir disgwyl yr un safonau proffesiynol gan diwtoriaid rhan amser â chan weithlu llawn amser. Ni all maes sydd mor bwysig o safbwynt adfer iaith barhau i orddibynnu ar staff rhan amser. **Y mae angen creu swyddi a llwybrau gyrfa ar gyfer tiwtoriaid llawn amser er mwyn codi statws y maes a'i broffesiynoli.**

**Dysgwyr**

Os bydd dysgwyr yn dilyn llwybr dilyniant Cymraeg i Oedolion o safon 1 i safon 6, derbyniant rhwng 300 a 600 awr o hyfforddiant. Cymharer hyn â'r dysgwyr yng Ngwlad y Basg sydd yn derbyn rhwng 1,500 a 1,800 o oriau o hyfforddiant, tua deg awr yr wythnos. Y mae disgwyl i'n myfyrwyr ni gyrraedd safonau uchel mewn amser cymharol fyr a phob clod iddynt am wneud. Byddai eu safon cymaint yn well pe gallem gynnig rhagor o oriau. Yr hyn sydd yn bwysig i'n myfyrwyr ni yw eu bod yn cael amodau teg ar gyfer dysgu. Nid yw'n bosib rheoli hyn pan fydd myfyrwyr yn mynychu cyrsiau o'u gwirfodd yn y gymuned. Fodd bynnag, pan **fydd myfyrwyr yn dysgu fel rhan o'u gwaith, dylai fod yn amod eu bod yn cael eu rhyddhau o'u gwaith yn ystod eu horiau arferol ac yn cael baich gwaith ysgafnach**, **lle bo hynny'n ymarferol bosibl. Dylai hyfforddiant yn y Gymraeg rannu'r un statws â meysydd hyfforddi eraill. Y mae angen cyllid penodol i ryddhau staff i fynychu cyrsiau a bydd yn bosibl mesur eu cyrhaeddiad trwy'r gyfundrefn arholi bum lefel newydd**. Gall cyrff fel y Cynulliad Cenedlaethol arwain yn hyn o beth.

Rhaid cynllunio hefyd ar gyfer y garfan honno o bobl ifainc a fydd yn gadael ein hysgolion ar ôl astudio'r Gymraeg hyd at 16 oed. Bydd hyn yn digwydd erbyn 2003 a dyma'r tro cyntaf yn hanes yr iaith i'r fath sefyllfa godi. Bydd yn gyfle ac yn her yn y blynyddoedd i ddod, i adeiladu ar y sylfaen hon ac ar faes Cymraeg i Oedolion y bydd y gwaith yn disgyn**. Bydd yn rhaid wrth staff proffesiynol amser llawn i ddatblygu a chanolbwyntio ar y gwaith o ddysgu pobl ifainc 16 oed a bydd angen iddynt gael cyflenwad o adnoddau addas**. Oni wneir hyn, bydd yr holl adnoddau a fuddsoddwyd yn addysg ein plant yn mynd yn ofer.

**Cymraeg at Anghenion Penodol**

Fel y dywedir uchod, y mae twf mawr wedi bod ym maes Cymraeg yn y Gweithle. Yn sgil hyn y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cyhoeddi *Canllawiau ar gyfer Cyflogwyr* ac y mae prosiect ar y gweill i ddenu arian Amcan 1/3 i ddatblygu Cymraeg yn y Gweithle yn y sector breifat ledled Cymru. Un peth sydd wedi'i amlygu dros y blynyddoedd diwethaf yw er mwyn cwrdd ag union anghenion cyflogwyr, y mae angen teilwra manwl a gofalus. Gofynna hyn am waith ymchwil yn y lle cyntaf, ac wedyn gwaith llunio deunyddiau pwrpasol. Dyma'r math o waith y mae darparwyr yn ei chael yn anodd ymgymryd ag ef ar y funud oherwydd diffyg staff llawn amser. Yn aml iawn y mae gan staff sydd yn gweithio'n llawn amser yn y maes feichiau gweinyddol a/neu ddysgu trwm iawn sydd yn llesteirio gwaith pwysig ym maes llunio deunyddiau arbenigol.

**Cyllid**

Y mae anghydraddoldeb yn bodoli yn y modd y cyllidir dysgu'r Gymraeg i Oedolion a dysgu'r Saesneg i Oedolion. 1.25 yw Pwysedd Maes Rhaglen Cymraeg i Oedolion. Derbynia maes Saesneg i Oedolion Bwysedd Maes Rhaglen o 1.5. Dylai dysgu Cymraeg i Oedolion fod yn

gyfartal o leiaf. **Gelwir ar y Cynulliad i sicrhau ariannu teg i'r maes yn sgil yr arolwg presennol o'r Dull Cyllido Rheolaidd ac yn y cyfamser, codi'r pwysedd i 1.5 o gychwyn y flwyddyn ariannol nesaf**. Fel mesur tymor byr, byddai hyn yn mynd peth o'r ffordd i sicrhau rhagor o diwtoriaid llawn amser ac i fedru rhyddhau staff o feichiau dysgu trymion i broffesiynoli maes Cymraeg yn y Gweithle trwy greu deunyddiau pwrpasol. Fodd bynnag, ateb tymor byr yw hwn. Yr hyn y mae gwir ei angen yw costio rhaglen gynhwysfawr o gyflogi staff llawn amser.

**Cymhathu Dysgwyr**

Gðyr pobl ei bod yn bosibl dysgu'r Gymraeg bellach. Ni fu hynny bob amser yn wir. Yr her nawr yw dysgu mwy o bobl ond hefyd sicrhau'r cyfleoedd i bobl ddefnydddio eu Cymraeg - boed yn eu cartrefi, yn eu gweithleoedd, wrth ymdrin â chyrff cyhoeddus, neu yn gymdeithasol. Bach iawn yw'r adnoddau a fuddsoddir yn y gwaith pwysig hwn. **Y mae angen i faes Cymraeg i Oedolion a CYD gydweithio â ffrynt eang o fudiadau a chyrff i sicrhau mynediad i ddysgwyr i ddefnyddio eu hiaith newydd. Y mae angen cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ymhlith siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â dysgwyr**. Oni ddigwydd y cam hwn, i ba bwrpas y ceir dysgu o'r safon uchaf mewn dosbarthiadau? Nid mewn dosbarth yn unig y bydd person yn meistroli iaith.

Yr ydym yn ffyddiog y gallwn gwrdd â'r her o ddysgu'r Gymraeg yn effeithiol i oedolion o gael y cyfle i wneud y gwaith gydag adnoddau digonol y tu ôl i ni.

**Cydlynu Cenedlaethol**

Ers mis Medi 2001, cymerwyd camau breision ym maes arholi. Y mae manylebau a phapurau enghreifftiol wedi'u llunio ar bum lefel o fewn Fframwaith Cymwysterau Ewrop ac yn cael eu hachredu gan ACCAC ar hyn o bryd. Y mae hyn wedi digwydd oherwydd i swyddog gael ei benodi a all ganolbwyntio ei holl amser ar y gwaith hwn. Dyma'r tro cyntaf i hyn ddigwydd yn hanes Cymraeg i Oedolion. Y drefn arferol yw bod Swyddog Cenedlaethol yn gyfrifol am holl rychwant y maes ac o'r herwydd yn methu ag arbenigo mewn meysydd penodol.

Ar hyn o bryd, prosiectau a ariennir gan ELWa yw'r Swyddog Arholi a'r Swyddog Cenedlaethol a leolir o fewn Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dengys hyn unwaith eto y diffyg buddsoddi yn y maes - y tro hwn ar raddfa genedlaethol. £100,000 yw'r swm a werir ar waith cenedlaethol ar hyn o bryd. Cymharer hyn unwaith eto â'r sefyllfa yng Ngwlad y Basg. Y mae'r llywodraeth yn dyrannu £21-£24 miliwn Ewro yn flynyddol ar gyfer prosiectau cenedlaethol.

Y mae angen arbenigwyr ar raddfa genedlaethol yn y meysydd canlynol:

- marchnata a chyhoeddusrwydd
- datblygu andoddau dysgu ac addysgu, gan gynnwys adnoddau e-ddysgu
- ymchwil
- hyfforddi
- datblygu darpariaeth Cymraeg yn y Gweithle
- cynnal a rheoli prosiectau arbennig

**Gellid cyflawni'r gwaith o gydlynu a datblygu cenedlaethol effeithiol trwy sefydlu Canolfan Rithwir a fyddai'n datblygu'r sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ôl 16 a Chymraeg i Oedolion. Ystyr Canolfan Rithwir yn y cyd-destun hwn yw y byddai modd cael adrannau gwahanol wedi'u lleoli mewn rhannau gwahanol o Gymru**. Yn ogystal â'r meysydd penodol a restrir uchod byddai'r ganolfan yn gyfrifol am gynllunio strategol yn y gwahanol sectorau. Dylid rhyddhau arian creiddiol i gyflogi staff llawn amser a chanddynt gytundebau parhaol ynghyd ag arian prosiect i dalu am gynhyrchu adnoddau dysgu ac addysgu, marchnata a chyhoeddusrwydd, a threfnu hyfforddiant i staff.

Un o amcanion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw creu cyfleoedd i bobl ddod yn ddwyieithog. Y mae maes Cymraeg i Oedolion yn un o'r cyfryngau ar gyfer gwireddu'r dyhead hwn. Fel y dengys y papur hwn, y mae angen buddsoddi. Y mae angen creu sefydlogrwydd ar gyfer staff ac amodau dysgu teg ar gyfer dysgwyr. Y mae angen proffesiynoli. Rhaid proffesiynoli os yw Cymraeg i Oedolion yn mynd i chwarae ei ran yn sicrhau bod y Gymraeg a dwyieithrwydd ar gynnydd yng Nghymru ac nid ar drai.